

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	14 Mai 2026
Pwnc:	Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.llyw.cymru">MarcJones@ynysmon.llyw.cymru</a>
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru">MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru</a>
<b>Natur a Rheswm Dros Adrodd:</b> Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt.	

## 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddarau cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

## 2. Argymhellion

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

## Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
24	<a href="#">08/05/25</a>	9	Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i godi'r mater o ganllawiau polisi ar ddefnydd Deallusrwydd Artiffisial o fewn y Cyngor gyda'r Tîm Arweinyddiaeth.	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151	Mae polisi wedi'i ddrafftio, a'i ddiweddarau'n ddiweddar yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Swyddog Diogelu Data. Bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried ac yn mabwysiadu pryd y gallent ddyrannu slot.	Ar y gweill.
	<a href="#">26/06/25</a>	4			DIWEDDARIAD: Ystyriodd y Tîm Arweinyddiaeth y polisi drafft yn ei gyfarfod ar 17/06/25 ac wedi gofyn iddo gael ei adolygu ymhellach.	
	<a href="#">03/02/26</a>	3			DIWEDDARIAD: Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd ar y polisi drafft, ei bod wedi penderfynu rhannu'r ddogfen wreiddiol yn ddau bolisi ar wahân - un sy'n cwmpasu defnydd cyffredinol o DA (e.e. ar gyfer ymholiadau) ac un arall sy'n mynd i'r afael â'r defnydd o DA o fewn systemau a phrosesau ffurfiol y cyngor. Mae'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro a'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth wedi adolygu'r ddau bolisi, a fydd yn cael eu hystyried eto gan y Tîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2026.	
	14/05/26				DIWEDDARIAD: Derbyniodd y Tîm Arweinyddiaeth y polisi DA ar 15/04/26 yn amodol ar fân ddiwygiadau. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth derfynol, mae trefniadau wedi'u gwneud i'r polisi gael ei lansio trwy borth polisi'r cyngor, lle mae'n ofynnol i staff ddarllen a derbyn polisiâu gorfodol. Bydd y Tîm TG yn lansio ynghyd â chanllawiau ar ddefnyddio DA.	

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
29	<a href="#">30/09/25</a>	5	Y Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd i ddod â'r cynllun strategol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol tair blynedd wedi'i gwblhau, sy'n ymgorffori camau gweithredu SMART, i gyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol.	Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd	Bwriad i gyflwyno i gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026.	
33	<a href="#">04/12/25</a>	8	Cytunodd y pwyllgor bod adroddiad a chynllun gweithredu Diogelwch TGCh Ysgolion Uwchradd (Sicrwydd Cyfyngedig) yn cael eu hystyried yn fanwl yng nghyfarfod Gorffennaf 2026 yn dilyn adolygiad cynnydd yr Archwilio Mewnol a gofynnodd i Brif Swyddog Digidol y Cyngor fynychu.	Pennaeth Archwilio a Risg / Prif Swyddog Digidol	Bwriad i gyflwyno i gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026.	